



**Adroddiad blynyddol i
Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
ac Addysg Uwch Cymru**

2012-13

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cyflawniadau yn 2012-13	2
Crynodeb o weithgareddau 2012-13	3
Gweithgareddau adolygu	3
Gweithgareddau cefnogi adolygiad	3
Gweithgareddau datblygu a gwella	3
Gweithgareddau cefnogi eraill	3
Gweithgareddau adolygu	4
Adolygiad Sefydliadol	4
Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol	5
Archwiliad o ddarpariaeth dramor	6
Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru 2012-13.....	6
Adolygiadau ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol	7
Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach (AU mewn AB)	7
Ymchwiliadau i Bryderon.....	7
Mynediad i AU yng Nghymru 2012-13.....	7
Gweithgareddau cefnogi adolygiad	9
Hyfforddiant i adolygwyr ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol	9
Gweithgareddau datblygu a gwella	10
Cefnogi gwelliant mewn addysg uwch yng Nghymru	10
Ymgysylltiad â'r myfyrwyr.....	10
Gweithgareddau cefnogi eraill	12
Cefnogi, monitro ac adrodd ar weithgareddau ASA	13
Atodiad A: dadansoddiad o'r gwariant (2012-13)	18
Atodiad B: crynodeb o ganlyniadau adolygiadau ASA (2009-15)	19

Cyflwyniad

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) wedi cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru (CCAUC) ac Addysg Uwch Cymru (AUC) ar gyfer y cyfnod o 1 Awst 2009 hyd 31 Gorffennaf 2015. Mae'r CLG yn nodi cyfrifoldebau perthnasol y tri sefydliad ac yn dweud y byddent yn gweithio mewn partneriaeth ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Awst 2012 hyd 31 Gorffennaf 2013 ac yn esbonio sut mae ASA wedi cyflawni ei chyfrifoldebau.

Mae'r CLG yn nodi y bydd ASA yn darparu adroddiad i CCAUC ac AUC ar ddiwedd bob blwyddyn am gyfnod y cytundeb. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:

- adroddiad ar gynnydd yn erbyn y rhaglen gwasanaethau ar gyfer 2012-13
- dadansoddiad o'r gwariant gan ddefnyddio penawdau rhestr daliadau Cymru 2012-13 (gwelwch Atodiad A)
- crynodeb o ganlyniadau'r adolygiadau yn ymdrin â chyfnod y CLG (2009-15) (gwelwch Atodiad B).

Cyflawniadau yn 2012-13

Tabl 1: cyflawniadau yn erbyn y rhaglen o wasanaethau ar gyfer 2012-13

Gweithgaredd	Cwblhawyd: do, naddo neu'n rhannol
Gwneud a darparu un Adolygiad Sefydliadol, gan gynnwys hyfforddi'r tîm adolygu a briffio'r sefydliad	Do: gwelwch baragraffau 1 i 4, 10 a 32
Gweithredu gweithdrefnau ASA ar gyfer delio â Phryderon am ansawdd a safonau mewn addysg uwch	Do: gwelwch baragraff 27
Gwneud a darparu Adolygiad Datblygiadol o Raddau Sylfaen yng Nghymru	Do: gwelwch baragraffau 14 i 22
Darparu hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses Adolygiad Sefydliadol (Cymru)	Do: gwelwch baragraff 39, 40, 41
Gweithio gyda CCAUC, AUC, yr Academi Addysg Uwch (AAU) a'r sector addysg uwch ar faterion sicrwydd ansawdd a materion gwella sy'n ymwneud yn benodol â Chymru	Do: gwelwch baragraffau 33 i 37
Cefnogi Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (MYMC) ac ymgysylltiad myfyrwyr mewn prosesau sicrhau ansawdd	Do: gwelwch baragraff 38
Gweithio gyda CCAUC a'r sector addysg uwch mewn perthynas â'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau i Gymru	Do: gwelwch baragraff 44
Ymweld yn rheolaidd â phob un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru	Do: gwelwch baragraff 56
Mynd i gyfarfodydd pwyllgorau perthnasol yn cynnwys Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (SETQC) CCAUC a Grŵp Ansawdd a Datblygiad Academaidd Cymru	Do: gwelwch baragraff 56
Cysylltu â chyrrff perthnasol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, AAU, yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru	Do: gwelwch baragraff 56
Sicrhau gallu sefydliadol i ddelio ag ymholiadau cyfrwng Cymraeg a bodloni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg	Do: gwelwch baragraffau 61 a 62

Crynodeb o weithgareddau 2012-13

Gweithgareddau adolygu

Gwnaeth/cynhaliodd ASA:

- un Adolygiad Sefydliadol, a chafwyd y feirniadaeth 'yn cyflawni disgwyliadau'r DU' am ansawdd academiaidd, safonau, gwybodaeth gyhoeddus a gwelliant; canfu'r adolygiad dair nodwedd o arfer da a rhoddodd bedwar argymhellid am wella'r rheolaeth ar ansawdd a safonau academiaidd
- wyth Adolygiad Datblygiadol o Raddau Sylfaen yng Nghymru: adroddwyd am amrywiaeth eang o arferion da ac argymhellion (pennwyd oddeutu 35 o nodweddion o arfer da a chafwyd ychydig dros 60 o argymhellion - mae'r nifer uwch o argymhellion yn gyson â phroses Adolygiad Datblygiadol)
- waith monitro datblygiad, gweithrediad a llofnodi cynlluniau gweithredu Prifysgol Cymru; roedd y cynlluniau gweithredu wedi'u llofnodi gan ASA ym mis Gorffennaf 2013
- hyfforddiant i adolygwyr ar gyfer Adolygiad o Raddau Sylfaen ar 9-10 Hydref 2012
- un Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol yng Nghymru ym mis Ebrill 2013 (beirniadaeth o hyder).

Gweithgareddau cefnogi adolygiad

Darparodd ASA:

- gefnogaeth ac arbenigedd technegol ar gyfer ymgynghoriad CCAUC ar y diwygiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol (Cymru) yn 2014-15
- digwyddiad hyfforddi i bedwar adolygwr, un adolygwr sy'n fyfyrwr, un hwylusydd sefydliadol ac un prif gynrychiolydd myfyrwr
- digwyddiad briffio i sefydliadau gydag adolygiadau yn 2013-14.

Gweithgareddau datblygu a gwella

Cynhaliodd a/neu cefnogodd ASA:

- chwe chyfarfod ar ddatblygu Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU
- un cyfarfod ar ddefnyddio *Pennod B10: Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill* yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU
- tri chyfarfod y Grŵp Llywio 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'
- tri chyfarfod y Grŵp Llywio MYMC
- dau gyfarfod y Fforwm AU mewn AB.

Gweithgareddau cefnogi eraill

- **Pwyllgor Cymru:** yn ystod 2012-13, cynyddodd ASA nifer y cyfarfodydd o ddwy i dair gwaith y flwyddyn a diweddarodd y cylch gwaith.
- **Swyddfa yng Nghaerdydd:** agorodd ASA ei swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2013.
- **Cyfarfodydd yng Nghymru:** Aeth swyddogion ASA i 42 o gyfarfodydd.
- **Ymweliadau sefydliadol:** Gwnaeth ASA naw ymweliad sefydliadol.

Gweithgareddau adolygu

Adolygiad Sefydliadol

Prifysgol Glyndŵr

1 Yn ystod 2012-13, gwnaeth ASA un Adolygiad Sefydliadol o Brifysgol Glyndŵr, ym mis Mawrth 2013. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 28 Mehefin 2013. Mae'r beirniadaethau, yr argymhellion a'r nodweddion o arfer da i'w gweld isod.

Y beirniadaethau

2 Gwnaeth tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol.

- Mae'r safonau academaidd yn y sefydliad yn cyflawni disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y sefydliad yn cyflawni disgwyliadau'r DU.
- Mae'r wybodaeth y mae'r sefydliad yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n cyflawni disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y sefydliad yn cyflawni disgwyliadau'r DU.

Y nodweddion o arfer da

3 Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o arfer da dilynol ym Mhrifysgol Glyndŵr.

- Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd da o'i harbenigedd eang a chryf mewn datblygu a darparu dulliau e-ddysgu.
- Mae Canolfan Asesu Anableded y Brifysgol yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr gydag anabledau ar gampws Wrecsam.
- Mae'r Dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn darparu gwybodaeth rheoli gyfredol a hanesyddol sy'n hygyrch i'r staff ar bob lefel, y gellir ei defnyddio hefyd i hybu gwelliant.

Yr argymhellion

4 Gwnaeth tîm adolygu ASA yr argymhellion dilynol i Brifysgol Glyndŵr:

- Dylai rheoliadau ar gyfer arholi allanol nodi bod samplu sgrïptiau asesu bob amser yn cynnwys yr holl safleoedd darparu, ac y dylai adroddiadau arholwyr allanol adlewyrchu'r samplu yma, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2013-14.
- Sefydlu a gweithredu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwella'r adnoddau dysgu a'r gefnogaeth i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain, erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2013-14.
- Sicrhau bod problemau gydag adnoddau dysgu yr adroddir amdanynt drwy'r prosesau comisiynu a monitro yn derbyn sylw'n effeithiol ac mewn da bryd, o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2013-14 ac wedi hynny.
- Cynnwys aelodau panel allanol ymhob ymweliad cymeradwyo rhaglenni â chanolfannau cydweithredol, o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2013-14 ac wedi hynny.

Gweithgareddau'r adolygiad dilyniant yn 2012-13: Prifysgol Aberystwyth

5 Yn dilyn cyhoeddi'r feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' am ddarpariaeth gydweithredol Prifysgol Aberystwyth ym mis Hydref 2012, dilynodd y Brifysgol y weithdrefn drwy gynhyrchu cynllun gweithredu ac adroddiadau cynnydd dilyniant. Cafodd y cynllun gweithredu ei lofnodi gan Fwrdd ASA ym mis Mehefin 2013.

Gweithgareddau'r adolygiad dilyniant yn 2012-13: Prifysgol Cymru

6 Mae ASA wedi gweithio'n agos â Phrifysgol Cymru i gwblhau ei phedwar cynllun gweithredu sy'n weddill, mewn perthynas â'i Hadolygiad Sefydliadol, un archwiliad dramor a dau Ymchwiliad i Bryderon. Cafodd y cynlluniau gweithredu eu lofnodi gan ASA yn ei chynhadledd achosion Pryder ym mis Gorffennaf 2013.

7 **Y camau nesaf:** o 2013-14, bydd ASA yn cyflwyno proses fonitro flynyddol a bydd yn adrodd i Brifysgol Cymru a CCAUC ar 'drefniadau ymadael' y Brifysgol.

Dilyniant Canol Cylchred Adolygu

8 Tua thair blynedd ar ôl cwblhau ei Adolygiad Sefydliadol, mae'n rhaid i sefydliad gyflwyno adroddiad adolygu canol cylchred i ASA, gan roi sylwadau ar y datblygiad a gafwyd ers yr adolygiad blaenorol ac ar ddatblygiadau perthnasol eraill. Mae swyddogion ASA yn ymweld â'r sefydliad i drafod materion a godwyd yn yr adroddiad, ac mae'r ymweliad hefyd yn rhoi cyfle i ddarllen dogfennaeth berthnasol ar reolaeth y sefydliad o ansawdd a safonau academaidd. Yn dilyn yr ymweliad, mae ASA yn rhoi adroddiad i'r sefydliad ac i CCAUC. Doedd dim ymweliadau dilyniant canol cylchred yn 2012-13, am na chafwyd Adolygiadau Sefydliadol yn y flwyddyn academaidd 2009-10.

Diwygiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol yn 2012-13 (i ddod yn weithredol o 2014-15)

9 Ym mis Tachwedd 2011, derbyniodd ASA fanyleb gan CCAUC am y newidiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol (Cymru), i'w gweithredu o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2012-13. Trafodwyd a chytunwyd ar y diwygiadau mewn cyfarfod o Is-grŵp Asesu a Gwella Ansawdd CCAUC (QAESG) ar 19 Mawrth 2012. Cyhoeddwyd y llawlyfr diwygiedig ym mis Mehefin 2012 ac mae ar gael ar:

www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru-llawlyfr-2012.aspx.

Digwyddiad briffio sefydliadol i sefydliadau gydag adolygiadau yn 2012-13

10 Cynhaliwyd digwyddiad briffio ym mis Ebrill 2013 ar gyfer sefydliadau sy'n cael Adolygiad Sefydliadol yn 2013-14. Dyma oedd y sefydliadau a gymerodd ran: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe.

Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol

11 Ni chafwyd unrhyw ymwneud â sefydliadau yng Nghymru mewn perthynas â phwerau dyfarnu graddau / teitl prifysgol yn 2012-13.

Archwiliad o ddarpariaeth dramor

Prosiect Addysg Trawswladol (TNE) Tsieina 2012

12 Wrth ddewis y sampl o sefydliadau yn Tsieina ar gyfer prosiect Addysg Trawswladol Tsieina, ceisiodd ASA gyfleu'r amrywiol fathau o bartneriaethau neu gysylltiadau eraill gyda sefydliadau addysg uwch y DU (er enghraifft, campysau tramor), a chyrsgiau ôl-raddedig yn ogystal â rhai israddedig. Mae ASA wedi cynnwys Prifysgol Cymru, am ei bod yn un o'r sefydliadau gyda'r nifer uchaf o fyfyrwyr yn Tsieina. Fodd bynnag, mae ASA wedi dewis astudiaeth achos yn hytrach nag adolygiad am fod adroddiadau tramor diweddar am Brifysgol Cymru, yn ogystal ag Adolygiad Sefydliadol gweddol ddiweddar.

13 Cyhoeddwyd yr astudiaeth achos am Brifysgol Cymru ym mis Mai 2013 ac mae ar gael (yn y Saesneg yn unig) ar:
www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/tne-china-2012-case-studies.aspx.

Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru 2012-13

14 Cwblhawyd pob un o'r wyth ymweliad ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru yn 2012-13 o fewn yr amserlen a gytunwyd. Cafodd yr adroddiad adolygu terfynol, oedd yn cloi'r gyfres hon o adolygiadau, ei gwblhau a'i anfon i'r sefydliad arweiniol ym mis Medi 2013.

15 Cafodd y timau adolygu ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru eu hyfforddi ar 9-10 Hydref 2012 yng Nghaerdydd.

16 Yn ystod yr adolygiadau, derbyniwyd yr holl ddogfennau hunanwerthusiad yn brydlon ac roedd gan bob un gyflwyniad myfyrwyr, y cafodd rhai ohonynt eu paratoi gyda chefnogaeth Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr ASA. Mae presenoldeb enwebai'r sefydliad ar y timau wedi bod o gymorth mawr i ganfod gwybodaeth berthnasol i aelodau allanol y tîm, yn arbennig yn ystod ymweliadau.

17 Ymwelwyd â phob un o'r colegau partner, a threfnwyd y cludiant gan y sefydliadau arweiniol a'i ddarparu gan enwebeion y sefydliadau, ac roedd y timau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon yn fawr iawn. Mae'n amlwg bod colegau partner wedi croesawu ymdrechion y timau i gyflawni'r nod o gynnwys yr holl ddarparwyr yn y broses, pa mor fach bynnag yw eu darpariaeth Graddau Sylfaen.

18 Mae'r timau wedi cwrdd â nifer o gyflogwyr, yn y sefydliadau arweiniol a'r colegau partner, ac yn y gweithle. Mae timau wedi cael yr ymweliadau â'r gweithle'n ddefnyddiol, am eu bod yn gyfle i gael tystiolaeth o lygad y ffynnon ac er mwyn rhoi'r rhaglenni yn eu cyd-destun.

19 Dewisodd bob tîm nifer fechan o raglenni i'w harchwilio'n fanylach. Bu swyddogion cefnogi'r adolygiad yn monitro'r dewis o 'drywyddau rhaglenni' fel bod cynrychiolaeth ar y cyd o ystod eang o feysydd cwricwlwm, pob dull astudio, darpariaeth sefydledig neu ddarpariaeth fwy newydd, a'r holl gyrff cyllido.

20 Adroddwyd am amrywiaeth eang o arferion da ac argymhellion. Pennwyd oddeutu 35 o nodweddion o arfer da a chafwyd ychydig dros 60 o argymhellion. Mae'r nifer uwch o argymhellion yn gyson â phroses Adolygiad Datblygiadol.

21 Bydd adroddiad trosolwg sy'n nodi'r prif themâu a materion i'w trafod wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2013.

22 I lansio'r adroddiad trosolwg a lledaenu'r arferion da a nodir yn yr adroddiad, cynhelir digwyddiad sydd â'r nod o wella'r ddarpariaeth Graddau Sylfaen yng Nghymru.

Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio ar gyfer Tachwedd 2013. Bydd gwahoddiad i gynrychiolwyr o CCAUC, Colegau Cymru a thimau adolygu ASA a cheisir cyfraniad gan gyflogwyr hefyd.

Adolygiadau ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

23 Cynhaliwyd un Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol yn Ysgol Diwinyddiaeth Efengylaidd Cymru: www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/reo-west-13-w.aspx.

24 Yn ogystal, cafwyd dau ymweliad monitro blynyddol i'r Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol o Goleg Mewnosodedig (mae'r adroddiadau ar gael yn y Saesneg yn unig):

- Navitas Holdings (www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/reo-am-navitasuk-13.aspx), yn cynnwys Coleg Rhyngwladol Cymru, Abertawe (www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/reo-am-icws-13.aspx)
- Bellerbys Educational Services (Study Group UK) (www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/ecreo-bellerbys-educational-services-am-13.aspx), yn cynnwys Wales International Study Centre (www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/ecreo-wales-isc-am-13.aspx).

Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach (AU mewn AB)

Adolygiad o AU a ariennir yn uniongyrchol mewn AB

25 Yng nghyfarfod cynnydd CLG ar 18 Ionawr 2012, cytunwyd i ohirio unrhyw ddatblygiad pellach o ddull adolygu ar gyfer AU mewn AB hyd nes bo Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hadolygiad o addysg bellach. Ar 19 Mawrth 2012, dywedodd yr Is-grŵp QAESG y dylai unrhyw ddull o adolygu AU mewn AB yn y dyfodol alinio gyda'r Adolygiad Sefydliadol (Cymru). Yn y cyfarfod CLG ar 10 Gorffennaf 2012, edrychwyd eto ar y mater a chytunwyd i aros nes y cyhoeddir adolygiad Llywodraeth Cymru o Addysg Bellach, sydd i ddod allan ym mis Rhagfyr 2012, cyn cymryd unrhyw gam gweithredu pellach. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod CLG ym mis Gorffennaf 2013, cytunwyd gyda CCAUC ei bod hi'n annhebygol y bydd unrhyw adolygiad gan ASA o AU a ariennir yn uniongyrchol mewn AB yn digwydd cyn 2014-15. O 2013-14, bydd gofyn i'r holl golegau addysg bellach sy'n darparu addysg uwch a ariennir yn uniongyrchol danysgrifio i ASA ac, yn eu tro, fod yn atebol i Adolygiad Sefydliadol.

Y Rhwydwaith AU mewn AB

26 Aeth swyddogion ASA i gyfarfodydd y Rhwydwaith AU mewn AB, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ASA, ar 5 Hydref 2012 a 12 Ebrill 2013.

Ymchwiliadau i Bryderon

27 Yn 2012-13, cychwynnodd ASA bedwar Ymholiad i Bryderon mewn perthynas â sefydliadau yng Nghymru, allan o gyfanswm o 94 o geisiadau a dderbyniwyd i'r Cynllun Pryderon. Nid oes unrhyw un o'r pedwar yng Nghymru wedi symud ymlaen at ymchwiliad llawn.

Mynediad i AU yng Nghymru 2012-13

28 Yn 2012-13, roedd 2,320 o ddysgwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau Mynediad i AU yng Nghymru (sef gostyngiad o 460 ar ffigur y flwyddyn flaenorol). Cynigiwyd wyth deg wyth o gyrsiau (tri yn fwy nag yn 2011-12) gan y 18 darparwr Mynediad i AU yng Nghymru (dau yn llai nag yn 2011-12 oherwydd uno colegau).

29 Mae ASA yn monitro Asiantaethau Dilysu Mynediad (AVA) drwy adrodd blynyddol ac adolygiadau cyfnodol. Cafodd yr adroddiad hunanwerthusiad blynyddol sydd wedi'i gyflwyno

gan Agored Cymru (yr un AVA yng Nghymru) ar ei weithgaredd 2010-11 ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2011. Roedd yr adborth am adroddiad yr AVA yn cynnwys tri argymhelliad a phum mater i dderbyn sylw.

30 Ym mis Ebrill 2012, cafodd Agored Cymru adolygiad ail-drwyddedu AVA llawn. Dyma oedd y cyntaf mewn cylch newydd o adolygiadau a ddefnyddiodd gyfres ddiwygiedig o feini prawf a dull diwygiedig, gyda chanlyniadau diwygiedig posibl (gan gynnwys beirniadaeth am lefel risg). Mae Bwrdd ASA yn gwneud penderfyniad am adnewyddu trwydded yr AVA ar sail y feirniadaeth am lefel risg. Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad (ARLC) a chymeradwyaeth o'r penderfyniad trwyddedu gan y Bwrdd, cyhoeddir yr adroddiadau ar y wefan Mynediad i AU.

31 Yn 2011-12, adolygodd ASA weithrediad manyleb presennol y Diploma Mynediad i AU yng Nghymru a Lloegr, yn nhermau maint ac arwyddocâd yr amrywiaeth mewn gofynion ar gyfer cyflawni'r cymhwyster. Roedd ymchwil ASA yng Nghymru'n cynnwys: trafodaethau un-i-un gydag Agored Cymru; un o gyfres o drafodaethau bord gron, a gynhaliwyd yn Llandrindod (a fynychwyd gan 11 cynrychiolydd o addysg uwch, 11 o sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, a phum cynrychiolydd o Agored Cymru); cyfarfod ar gyfer staff derbyn mewn addysg uwch (a fynychwyd gan gynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd); ac arolygon myfyrwyr, darparwyr a staff derbyn addysg uwch. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil yma wedi arwain at benderfyniad gan y Pwyllgor ARLC y dylid adolygu manyleb y cymwysterau cyfredol, ac mae'r gwaith datblygu yn y maes yma'n flaenoriaeth uchel i'n gwaith mewn Mynediad i AU yn 2012-13.

Gweithgareddau cefnogi adolygiad

Hyfforddiant i adolygwyr ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol

32 Ym mis Rhagfyr 2012, cynhaliodd ASA ddigwyddiad hyfforddi i dimau adolygu a hwyluswyr sefydliadol ar gyfer adolygu Prifysgol Glyndŵr ym mis Mawrth 2013. Roedd hyn yn cynnwys pum adolygwr (yn cynnwys un adolygwr sy'n fyfyrwr), un hwylusydd sefydliadol ac un prif gynrychiolydd myfyrwr. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniad gan AUC ar gyd-destun y polisi addysg uwch yng Nghymru.

Gweithgareddau datblygu a gwella

Cefnogi gwelliant mewn addysg uwch yng Nghymru

33 Yn 2012, rhoddodd ASA wybod i Dîm Cymru am ei ddull diwygiedig o wneud gwaith gwella gyda sector addysg uwch Cymru. Pwrpas trosfwaol y dull diwygiedig yw integreiddio gwaith ASA gyda hwnnw a wneir yng Nghymru, er mwyn cyflenwi'r gweithgareddau presennol gan wneud defnydd hefyd o'r holl arbenigedd sydd ar gael.

34 Mae ASA yn parhau i gyfrannu at y rhaglen o waith a gweithgareddau o fewn fframwaith Cynhadledd Dysgu ac Addysgu Ddwylflynnyddol 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' Cymru. Mae aelodaeth ASA ymhob un o'r tri llinyn gwaith 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' a'r Grŵp Llywio 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' yn parhau.

35 Gyda'r llinynnau gwaith 'Dysgu ar gyfer Gwaith' a 'Dysgu mewn Gwaith', mae ASA yn gwneud prosiect i ddilyn ymlaen o gynhadledd 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' 2012. Nod yr astudiaeth yw deall y ffyrdd y mae darparwyr yn asesu effaith y gweithgareddau y maent yn eu gwneud i hwyluso cyflogadwyedd a/neu ddysgu yn y gweithle, ac y mae darparwyr wedi eu gwneud yn fwy hysbys fel astudiaethau achos yn y gynhadledd yn gynharach eleni. Sicrhawyd bod canlyniadau'r arolwg ar gael mewn digwyddiad ar y cyd rhwng AAU/CCAUC/AUC/ASA ar 15 Mai 2013, a ddigwyddodd o dan nawdd y Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd i Gymru. Goruchwyliwyd y gwaith cynllunio ar gyfer y digwyddiad hwn gan CCAUC, mewn cydweithrediad agos ag AAU.

36 Mae Tîm Safonau, Ansawdd a Gwelliant ASA wedi parhau i wahodd aelodaeth mewn grwpiau cynghori ac i gynnal digwyddiadau ymgynghori yng Nghymru, i ennyn a hwyluso cyfraniad y sector yng Nghymru i benodau arfaethedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd). Mae'r gwaith hwn yn ddo'i hun yn arddangos arferion cadarn ac uchelgeisiol ar draws holl wledydd y DU, am fod ASA yn defnyddio arferion da cydnabyddedig wrth ddrafftio'r pwyntiau cyfeirio ac mae'n cynnwys cyfeiriad at esiamplau o arferion da. Mae ymgysylltiad diweddar â sector addysg uwch Cymru'n hysbysu'r adolygiad o *Ran A: Gosod a chynnal safonau academaidd, a Phenodau B1: Cynllunio a chymeradwyo rhaglenni, B6: Asesu myfyrwyr ac achredu dysgu blaenorol a B8: Monitro ac adolygu rhaglenni.*

37 Mae ASA yn cynnal digwyddiadau a gweithdai ar bynciau penodol yn fwy a mwy er mwyn cefnogi darparwyr i ymgysylltu ac ymgysylltu â'r Cod Ansawdd. Cynhaliwyd gweithdy, yn ymwneud â *Phennod B10: Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill*, i ddarparwyr yng Nghymru ar 25 Ebrill 2013 yng Nghaerdydd.

Ymgysylltiad â'r myfyrwyr

MYMC a digwyddiadau yn y sector

38 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae ASA wedi parhau i gefnogi gwaith MYMC, ynghyd â chydweithwyr eraill yn y sector. Mae staff ASA wedi bod i ddigwyddiadau myfyrwyr yng Nghymru, gan gynnwys cynadleddau cynrychiolwyr cwrs, cyfarfodydd/cynhadledd 'Myfyrwyr fel Partneriaid' a digwyddiadau hyfforddi UCM Cymru. O hydref 2013, bydd ASA yn darparu arian i MYMC (drwy UCM Cymru) dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu prosiectau i wella ymgysylltiad â'r myfyrwyr yng Nghymru.

Adolygiadau Sefydliadol ac Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru 2012-13

39 Erbyn hyn, mae gan ASA adolygwr sy'n fyfyrwr yn eistedd ar bob Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru, yn cynnwys dau adolygwr sy'n fyfyrwr ac sy'n rhugl yn y Gymraeg.

40 Mae ASA yn parhau i gefnogi undebau'r myfyrwyr gyda chynhyrchu cyflwyniadau'r myfyrwyr ar gyfer y dulliau adolygu hyn. Ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen, darparwyd cyflwyniad y myfyrwyr gyda phob adolygiad. Datblygwyd a chyhoeddwyd arweiniad cyflawn i brif gynrychiolwyr myfyrwyr ar gyfer y dulliau adolygu hyn.

Gweithio gyda phartneriaid yn y sector

41 Aeth ASA i gynhadledd 'Myfyrwyr fel Partneriaid yn Ymarferol' AAU Cymru ym mis Tachwedd 2012 a rhoi cyflwyniad yno. Mae ASA wedi parhau i weithio'n agos â'r llinyn gwaith yma.

Gweithio gydag UCM Cymru

42 Yn dilyn ymlaen o [adroddiadau'r tri llinyn yn 2011-12](#),¹ mae ASA wedi parhau i fuddsoddi mewn gwaith partneriaeth gydag UCM. Yn cychwyn ym mis Medi 2012, mae ASA wedi darparu arian ar gyfer dau brosiect o fewn undebau'r myfyrwyr yn y DU (gan gynnwys Cymru), y ddau'n para dwy flynedd, yn edrych ar:

- gefnogi datblygiad staff undebau'r myfyrwyr - bydd y rhaglen datblygiad yma'n annog staff undebau'r myfyrwyr i weithio gyda chynrychiolwyr myfyrwyr ledled y DU, gan eu helpu i ymgysylltu â gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd yn eu sefydliadau eu hunain
- adroddiadau ansawdd blynyddol - bydd y prosiect yma'n cefnogi undebau'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan i dynnu sylw'n ffurfiol at faterion yn ymwneud â dysgu ac addysgu yn eu sefydliadau trwy broses gyflwyno flynyddol, wedi'i modelu ar gyflwyniadau'r myfyrwyr i dimau adolygu ASA; mae cyflwyniadau rheolaidd gan undebau'r myfyrwyr yn sicrhau bod sefydliadau'n hynod ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar ansawdd addysg y myfyrwyr, gan yrru newid er gwell.

Ymchwil Cenedlaethol

43 Yn hydref 2012, comisiynodd ASA ddau brosiect ymchwil. Mae un o'r prosiectau'n edrych ar 'Ganfyddiadau'r Myfyrwyr am Ansawdd a Safonau' ac mae'r prosiect arall yn canolbwyntio ar 'Ymgysylltiad y Myfyrwyr â Sicrhau a Gwella Ansawdd'. Roedd y ddau brosiect yn cynnwys sefydliadau yng Nghymru a bydd adroddiadau a chanlyniadau'r ddau'n dod allan yn hydref 2013.

¹ www.qaa.ac.uk/partners/students/projects

Gweithgareddau cefnogi eraill

Cefnogaeth ASA i Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

44 Yn 2012-13, daeth y Fforwm Cytundeb Cyffredinol Credydau (CCAF) i ben.

Datblygu cynnwys gwefan ASA

45 O ran y newidiadau i adran Cymru'r wefan, mae ASA wedi sefydlu tudalen lanio erbyn hyn ar gyfer y llywio rhanbarthol: www.qaa.ac.uk/wales/pages/cymru.aspx. Cwblhawyd y gwaith ym mis Chwefror 2013.

46 Cafodd gwybodaeth am y swyddfa yng Nghaerdydd ei diweddarau, a chafodd yr adran [Amdanom Ni](#)² ei defnyddio i roi dolenni byrrach at yr Adolygiad Sefydliadol (Cymru), a dolenni sy'n cyfeirio at wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg a gweithgareddau wedi'u harwain gan fyfyrwyr. Rhoddwyd [dolenni ychwanegol](#)³ hefyd sy'n ymwneud â gwaith ASA gyda sefydliadau partner yng Nghymru.

47 Yn 2013, gwnaeth ASA arolwg o'r ffordd y mae ei chynulleidfaoedd yn rhyngweithio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg ac i weld a oedd unrhyw beth yn brin o ran cynnwys.

Fforwm ar gyfer Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB)

48 Cynhaliwyd digwyddiadau'r Fforwm PSRB ym misoedd Tachwedd 2012, a Mawrth a Gorffennaf 2013.

Gwahoddwyd y cyrff PSRB dilynol yng Nghymru i ddod i'r digwyddiadau:

- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
- Estyn.

Cysylltiad gyda chyrrff perthnasol eraill

49 Gwelwch baragraffau 56 a 58.

Helpu gydag ymholiadau gan y sector addysg uwch ac eraill yng Nghymru

50 Yn ystod 2012-13, derbyniodd ASA Cymru nifer o ymholiadau yn uniongyrchol gan y cyhoedd a chan staff mewn sefydliadau addysg uwch. Roedd y rhain yn cynnwys ymholiadau gan fyfyrwyr ynghylch cywerthedd cymwysterau, darpariaeth dramor, ac ymholiadau wedi'u seilio ar anfonlonrwydd gyda'r ddarpariaeth. Derbyniodd ASA gyfanswm o 23 ymholiad am sefydliadau yng Nghymru.⁴

51 Yn ogystal â'r ymholiadau yma, gofynnodd Pennaeth ASA Cymru a Swyddog Gweinyddol y Dull amrywiaeth o gwestiynau yn rhan o'r busnes arferol o gysylltu gyda chysylltiadau sefydliadol.

² www.qaa.ac.uk/wales/pages/amdanom-ni.aspx

³ www.qaa.ac.uk/wales/pages/cymru-links.aspx

⁴ Dim ond os yw ymholwyr wedi datgelu eu bod yn ddarparwyr neu'n fyfyrwyr Cymraeg y gall ASA gofnodi ymholiadau fel ymholiadau Cymraeg.

Cefnogi, monitro ac adrodd ar weithgareddau ASA

Tim Cymru

52 Mae Tim Cymru'n un o bwyllgorau mewnol ASA, sydd â'r dasg o fonitro, gwerthuso a sicrhau bod ASA yn cyflawni ei hymrwymiadau yng Nghymru. Mae wedi'i gadeirio gan Bennaeth ASA Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o strwythur grwpiau ASA. Mae Tim Cymru'n cyfarfod yn ffurfiol dair gwaith y flwyddyn. Yn 2012-13, cyfarfu Tim Cymru ym mis Hydref 2012, ac ym misoedd Mawrth a Gorffennaf 2013.

Pwyllgor ASA Cymru

53 Cyfarfu Pwyllgor Cyngori Cymru dair gwaith yn 2012-13. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 2012 a thrafodwyd eitemau yn cynnwys cynnydd ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch, eitem newyddion am raddau MBA, swyddfa ASA yng Nghaerdydd, a Derbyniad Blynyddol ASA. Ymysg y meysydd eraill a drafodwyd roedd yr adroddiad blynyddol i CCAUC ac AUC (2011-12); Prifysgol Cymru a Sefydliadau Achrededig a Pherthynol; defnyddio'r Cod Ansawdd i baratoi ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol; ac adolygiad ASA (2013) gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA). Yn dilyn y cyfarfod yma, gwnaed nifer o newidiadau i enw'r Pwyllgor (sef Pwyllgor ASA Cymru erbyn hyn), i'w cylch gwaith ac i'w haelodaeth. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2013, gydag adroddiadau ar yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru a gweithgareddau gwella ASA yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfarfod terfynol y flwyddyn yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2013 a thrafodwyd eitemau yn cynnwys dogfen ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ac ymgynghoriad CCAUC ar yr Adolygiad Sefydliadol.

Swyddfa ASA yng Nghaerdydd

54 Yn dilyn sefydlu presenoldeb swyddfa ASA yng Nghaerdydd ar ddiwedd 2012, cytunwyd i ymestyn y trefniant rhannu presennol gydag UCM Cymru am gyfnod pellach o flwyddyn. Mae'r swyddfa wedi gwella proffil ASA yng Nghymru mewn ffordd werthfawr iawn a chafwyd cyfarfodydd yno gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CCAUC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Derbyniad Blynyddol ASA

55 Ar 19 Mehefin 2013, cynhaliodd ASA ei derbyniad seneddol blynyddol yn y Senedd. Ymysg y siaradwyr roedd y Gweinidog Addysg, adolygwr sy'n fyfyrwr a Phrif Weithredwr ASA.

Pennaeth ASA Cymru

56 Mae Pennaeth ASA Cymru wedi cynnal amrywiaeth o gyfarfodydd gyda chyrrff perthnasol yng Nghymru ac wedi mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Tabl 2: cyfarfodydd yn cynnwys Pennaeth ASA Cymru

Dyddiad	Cyfarfod gyda a/neu bresenoldeb yn:
17/09/12	CCAUC - QAESG
18/09/13	UCM Cymru
21/09/13	Llywodraeth Cymru
02/10/12	Digwyddiad ymgynghori ar y Cod Ansawdd
04/10/12	Seminar y Cyngor Diwydiant ac Addysg Uwch (CIHE)
05/10/12	Cyfarfod y Grŵp Llywio 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'
08/10/12	Prifysgol Cymru

09/10/12	Hyfforddiant i adolygwyr ar gyfer Adolygiad o Raddau Sylfaen
19/10/12	Cyfarfod blynyddol CCAUC
23/10/12	CCAUC - SETQC
24/10/12	CCAUC - cyfarfod cynnydd CLG
25/10/12	Prifysgol Cymru
30/10/12	Prifysgol Bangor
31/10/12	Prifysgol Aberystwyth
22/11/12	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
26/11/12	Cyfarfod CCAUC/Estyn ar femorandwm dealltwriaeth
04/12/12	Prifysgol Cymru
17/01/13	Digwyddiad ymgynghori ar y Cod Ansawdd
23/01/13	CCAUC - cyfarfod Prif Swyddog Gweithredol ASA
06/02/13	CCAUC - SETQC
13/02/13	Cyfarfod y Grŵp Llywio 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'
14/02/13	Grŵp Cynghori ar Ddysgu ac Addysgu AUC
25/02/13	Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
05/03/13	Llywodraeth Cymru
06/03/13	Cyfarfod cynnydd CLG
21/03/13	CCAUC - QAESG
10/04/13	Prifysgol Cymru
12/04/13	Fforwm AU mewn AB
18/04/13	CCAUC - cyfarfod CLG
22/04/13	Digwyddiad briffio'r Adolygiad Sefydliadol (Cymru)
25/04/13	Digwyddiad ar <i>Bennod B10</i> y Cod Ansawdd
26/04/13	Digwyddiad AAU ar fyfyrwyr rhan amser
09/05/13	Prifysgol Aberystwyth
14/05/13	Prifysgol Cymru
22/05/13	CCAUC - SETQC
06/06/13	Digwyddiad AAU ar Raddau Sylfaen
10/06/13	Prifysgol De Cymru
11/06/13	AUC - digwyddiad lansio Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
12/06/13	AUC - cyfarfod gyda'r Gweinidog
19/06/13	Digwyddiad 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' AAU Comisiynydd y Gymraeg Derbyniad Blynyddol ASA
18/07/13	Cyfarfod swyddogion AUC

57 Gallwch weld manylion cysylltu Pennaeth ASA Cymru ar:

- www.qaa.ac.uk/contactus
- www.qaa.ac.uk/wales/pages/cymru.aspx

Amser swyddogion eraill ASA yng Nghymru

58 Yn ogystal â Phennaeth ASA Cymru, mae aelodau eraill o staff ASA wedi bod yn weithgar mewn darparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi adolygiad a gwasanaethau eraill yng Nghymru. Mae'r rhain i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 3: amser swyddogion eraill ASA yng Nghymru

Dyddiad	Gweithgaredd
11/12/12	Pwyllgor ASA Cymru
23/01/13	CCAUC - cyfarfod Prif Swyddog Gweithredol ASA
19/06/13	Derbyniad Blynyddol ASA
20/06/13	Cyfarfod y Bwrdd ASA
02/07/13	Pwyllgor ASA Cymru

Cynllun Swyddogion Cyswllt

59 Yn ogystal â'r ymweliadau blynyddol gan Bennaeth ASA Cymru, mae ASA yn gweithredu cynllun lle mae pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru'n cael swyddog cyswllt i ddarparu pwynt cysylltu uniongyrchol ar gyfer ystod eang o faterion sicrhau ansawdd y tu allan i brosesau adolygu ffurfiol. Nid yw'r swyddog cyswllt yn ymweld â sefydliad o anghenraid, ond mae'n gyfrifol am ymateb i ymholiadau a godir gan sefydliadau.

Cyhoeddiadau (Cymru yn unig)

60 Yn 2012-13, datblygodd ASA nifer o gyhoeddiadau sy'n benodol berthnasol i Gymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Tabl 4: cyhoeddiadau Cymru'n unig

Dyddiad	Cyhoeddiad
Awst 2012	Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/graddau-sylfaen-Cymru-llawlyfr.aspx
Hydref 2012	Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Bangor www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/adolyg-sef-Bangor-12.aspx
Hydref 2012	Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Aberystwyth www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/adolyg-sef-Aberystwyth-12.aspx
Tachwedd 2012	Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/adolyg-sef-Drindod-12.aspx
Tachwedd 2012	Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg 2011 www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/adroddiad-blynyddol-i-FIG-2011.aspx
Tachwedd 2012	Asesiad risg y Cynllun Iaith Gymraeg www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/asesiad-risg-CIG.aspx
Tachwedd 2012	Cynllun Iaith Gymraeg 2012-15 www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/cynllun-iaith-Gymraeg-2012.aspx
Tachwedd 2012	Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/cefnogi-siaradwyr-Cymraeg.aspx

Rhagfyr 2012	Canllawiau bach: arweiniad byr i fyfyrwyr am yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/FDW-mini-guide-W.aspx
Rhagfyr 2012	Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru: Arweiniad i brif gynrychiolwyr myfyrwyr www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/FDW-LSR-guide-W.aspx
Ionawr 2013	Podlediad: Yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru - Y ffeithiau www.qaa.ac.uk/publications/podcasts/pages/Foundation-Degrees-Wales-guidance.aspx
Ionawr 2013	Arolwg o wasanaethau dwyieithog ASA (arolwg ar-lein a oedd yn agored hyd 15 Mawrth)
Chwefror 2013	Podlediad: gwasanaethau dwyieithog ASA yng Nghymru www.qaa.ac.uk/publications/podcasts/pages/ASA-Cymru.aspx
Mawrth 2013	Adroddiad blynyddol i CCAUC ac AUC 2011-12 www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/adroddiad-blynyddol-CCAUC-2011-12.aspx
Ebrill 2013	Cynllun Pryderon: diweddarwyd cynnwys ar y we, cyhoeddwyd y ffurflen gyflwyno a'r canllawiau yn ddwyieithog www.qaa.ac.uk/complaints/pages/cwynion.aspx

Y Cynllun Iaith Gymraeg

61 Mae ASA yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol am y Cynllun Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn 2012-13 adroddodd am y canlynol:

- yn 2012, roedd gan ASA saith aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg
- agorodd ASA Cymru yn swyddogol ei swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2013, gyda gwe-dudalennau ac arwyddion swyddfa yn y ddwy iaith
- cyhoeddwyd diweddiadau i we-dudalennau Cymraeg yn barhaus, yn arbennig y rhestr termau ar-lein a'r Cronfeydd Gwybodaeth o Arferion Da / Argymhellion
- cynhyrwyd canllaw bach mewn print i staff am y Cynllun Iaith Gymraeg, a chyflwynwyd sgwrs i hysbysu staff
- cyhoeddwyd podlediad ar y Cynllun Iaith Gymraeg ac adolygiadau dwyieithog ym mis Chwefror 2013
- cynhaliwyd arolwg ar-lein o wasanaethau dwyieithog ASA.

Tabl 5: Cyhoeddiadau a gohebiaethau dwyieithog

Dyddiad	Cyhoeddiad/gohebiaeth
06/08/2012	Datganiad i'r wasg - Pryderon yn ymwneud â Phrifysgol Cymru / Finance and Business Training / London School of Business and Finance
14/08/2012	Cyhoeddiad ar-lein - Graddedigion i'n Dyfodol
07/09/2012	Penawdau - Cronfa Wybodaeth o Arferion Da
17/09/2012	Testun chwilio - Cronfa Wybodaeth o Arferion Da
19/09/2012	Rhagor o wybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg
26/09/2012	Gohebiaeth i CCAUC ynglŷn â'r Dilyniannau Canol Cylchred Adolygu
26/09/2012	Gohebiaeth ynglŷn â'r Dilyniant Canol Cylchred Adolygu ym Mhrifysgol Morgannwg

26/09/2012	Gohebiaeth ynglŷn â'r Dilyniant Canol Cylchred Adolygu ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe
01/10/2012	Rhaglen - hyfforddiant ar gyfer Adolygiad o Raddau Sylfaen (Cymru)
01/10/2012	Taflen werthuso - hyfforddiant ar gyfer Adolygiad o Raddau Sylfaen (Cymru)
01/10/2012	Rhestr o'r cyfranogwyr - hyfforddiant ar gyfer Adolygiad o Raddau Sylfaen (Cymru)
04/10/2012	Datganiad i'r wasg - Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Aberystwyth
22/10/2012	Cynnwys ar y we i fyfyrwyr - dull yr Adolygiad o Raddau Sylfaen (Cymru)
29/10/2012	Llythyr/ebost at Leighton Andrews - Derbyniad Blynyddol
09/11/2012	Datganiad i'r wasg - Cynllun Iaith Gymraeg ASA
09/11/2012	Asesiad risg y Cynllun Iaith Gymraeg
14/11/2012	Themâu - Cronfa Wybodaeth o Arferion Da
20/11/2012	Cyhoeddiad ar-lein diwygiedig - Cwynion
20/11/2012	Cyhoeddiad ar-lein - 'Sut allaf i gwyno?'
05/12/2012	Cynnwys ar y we - Cronfa Wybodaeth o Argymhellion
11/12/2012	Llythyr at Lyfrgell Genedlaethol Cymru
20/02/2013	Podlediad Cymraeg (trawsgrifiad a chyfieithiad i'r Saesneg)
21/02/2013	Tystiolaeth gefnogol - Cronfa Wybodaeth o Arferion Da
22/02/2013	Adroddiad blynyddol i CCAUC 2011-12
22/02/2013	Canllawiau a ffurflen gyflwyno - Cynllun Pryderon
13/03/2013	Adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg 2012
03/04/2013	Diweddariadau i'r Rhestr Termau 2013
18/04/2013	Adolygiad o Raddau Sylfaen (Cymru): Prifysgol Bangor
10/05/2013	Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol: Ysgol Diwinyddiaeth Efengylaidd Cymru
13/05/2013	Adolygiad Sefydliadol (Cymru): arweiniad i brif gynrychiolwyr myfyrwyr
24/05/2013	Deunyddiau - Derbyniad Blynyddol
07/06/2013	Adolygiad Sefydliadol (Cymru): Prifysgol Glyndŵr
13/06/2013	Gwaith gosod - Trosolwg o brosiect Addysg Trawswladol (TNE) Tsieina
08/07/2013	Adolygiad Sefydliadol (Cymru): canllawiau bach i fyfyrwyr
09/07/2013	Dewin Pryderon - Cynllun Pryderon ASA
22/07/2013	Cronfa Wybodaeth o Arferion Da: astudiaeth achos - Prifysgol Bangor, Cynllun Arweinwyr Cyfoed
22/07/2013	Cronfa Wybodaeth o Arferion Da: astudiaeth achos - Prifysgol Bangor, Cefnogaeth Dyslecsia

62 Yn ystod 2012-13, cyhoeddodd ASA 12 cyhoeddiad dwyieithog; comisynwyd 27 o gyfieithiadau byrrach (megis gwe-dudalennau, gwahoddiad i ddigwyddiad a gohebiaeth); cyfieithwyd 16 o destunau byrion o fewn y sefydliad. Cyhoeddwyd tri datganiad dwyieithog i'r wasg yn ystod 2012; dau yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyhoeddi adroddiadau dwyieithog ac un yn tynnu sylw at Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ASA a'r gwasanaethau dwyieithog y mae ASA yn eu darparu i'w rhanddeiliaid yng Nghymru.

Atodiad A: dadansoddiad o'r gwariant (2012-13)

	2012-13 Y Gyllideb £	2012-13 Gwariant Gwirioneddol	Y Gwahaniaeth £
Costau adolygu	136,995	128,650	8,345
Costau Talu'r Grŵp Adolygu	110,810	108,756	2,054
Costau ychwanegol Cymru	5,540	5,245	295
Costau'r Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus	56,280	72,019	(15,739)
Costau'r Grŵp Ymchwil, Datblygiad a Phartneriaethau	82,532	81,853	679
Costau taliadau'r rhwydwaith mewnol	106,037	114,767	(8,730)
Costau'r rhwydwaith mewnol nad ydynt yn ymwneud â chyflog	97,731	105,920	(8,189)
Cyfanswm y costau	595,925	617,210	(21,285)
Incwm			
Incwm Arall - yn cynnwys tanysgrifiadau ac incwm buddsoddi	(296,150)	(295,848)	(302)
Diffyg ariannol 'Dyrannu Pwerau Dyfarnu Graddau (DAP)'	2,225	4,131	(1,906)
CLG 2012-13	(302,000)	(302,000)	0
Cyfanswm Incwm	(595,925)	(593,717)	(2,208)
Cyfanswm heb ei gyllido/y diffyg	-	23,493	(23,493)

Atodiad B: crynodeb o ganlyniadau adolygiadau ASA (2009-15)

Dull adolygu	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Adolygiad Sefydliadol		Prifysgol Cymru, Casnewydd	Prifysgol Aberystwyth	Prifysgol Glyndŵr	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	Prifysgol De Cymru
		Prifysgol Cymru	Prifysgol Bangor Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant		Prifysgol Caerdydd Prifysgol Abertawe	Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
Darpariaeth dramor (Addysg Trawswladol - TNE)	Prifysgol Cymru (Malaysia)	Prifysgol Cymru (Singapôr)				
Pryderon (ymchwiliadau llawn)		Prifysgol Cymru (Turning Point Business School, Singapôr; Accademia Italiana, Bangkok; a Fazely International College, Kuala Lumpur)	Prifysgol Cymru (ac LSBF/FBT)			
Adolygiad o Raddau Sylfaen				Prifysgol Aberystwyth		
				Prifysgol Bangor		
				Prifysgol Fetropolitan Caerdydd		
				Prifysgol Morgannwg		
				Prifysgol Glyndŵr		
				Prifysgol Abertawe		
				Prifysgol Cymru, Casnewydd		
				Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant		

Mynediad i AU				Agored Cymru		
Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol ac Adolygiad o Goleg Mewnosedig ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol			Wales International Study Centre Coleg Rhyngwladol Cymru, Abertawe	Ysgol Diwinyddiaeth Efengylaidd Cymru		

Allwedd

	Y feirniadaeth o 'hyder' neu 'yn cyflawni disgwyliaidau'r DU' neu 'yn cyflawni'r cyfrifoldebau' heb unrhyw risg difrifol i ansawdd a safonau academaidd. Gallai gynnwys argymhellion i ymdrin â meysydd i'w gwella.
	Gwelwyd bod gan rai agweddau o'r ddarpariaeth y feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' neu 'yn gofyn gwelliant' neu 'pryderon a ganfuwyd'. Cwblhawyd y camau dilyniant.
	Gwelwyd bod gan rai agweddau o'r ddarpariaeth y feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' neu 'yn gofyn gwelliant' neu 'pryderon a ganfuwyd'. Mae'r camau dilyniant yn parhau (yn cynnwys darparu cynlluniau gweithredu i ymdrin â gwendidau).
	Y feirniadaeth o 'ddim hyder' neu 'wedi methu â chyflawni'r disgwyliaidau'

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebst enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2014

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786